

*Llywodraeth Cymru: Talu am Ofal  
Mawrth 2019 Astudiaeth Omnibws Cymru  
Casgliadau'r ymchwil*



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## Manylion cyswllt

Cyswllt yr asiantaeth: Fiona McAllister

### *Ymchwil Talu am Ofal Llywodraeth Cymru*

Mai 2019

#### Beaufort Research

2 Museum Place  
Caerdydd  
CF10 3BG

(029) 2037 8565

[enquiries@beaufortresearch.co.uk](mailto:enquiries@beaufortresearch.co.uk)

[www.beaufortresearch.co.uk](http://www.beaufortresearch.co.uk)

#### Telerau'r Contract

Oni chytunir yn wahanol, bydd casgliadau'r astudiaeth hon yn parhau i fod yn hawlfraint i Beaufort Research Ltd ac ni ellir eu dyfynnu, eu cyhoeddi na'u hatgynhyrchu heb ganiatâd ymlaen llaw gan y cwmni.

Dim ond ar sail anghywirdeb neu gamliwio y bydd caniatâd i ddyfynnu neu gyhoeddi'n cael ei wrthod.

Rhaid i bob cyhoeddiad a ganiateir nodi mai Beaufort Research Ltd yw'r darparwr, yn ogystal â nodi maint y sampl a dyddiadau cynnal yr arolwg.

© Beaufort Research Ltd 2019

Cynhaliwyd yr ymchwil hon yn unol ag ISO 20252



## 1. Cyflwyniad ac amcanion

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cymryd camau i greu system decach a mwy cynaliadwy ar gyfer talu am ofal cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys:

- Cyfyngu ar y swm y gall awdurdodau lleol ei godi ar bobl am y gofal a gânt yn eu cartref neu yn y gymuned (£80 yr wythnos ar hyn o bryd, ond bydd yn codi i £100 yr wythnos erbyn diwedd y Cynulliad hwn yn 2021);
- Galluogi pobl yng Nghymru i gadw hyd at £50,000 o'u harian cyn y bydd angen iddynt hunangyllido cost lawn eu gofal preswyl;
- Rhoi llais cryfach i bobl o ran y gofal a'r cymorth a gânt trwy gyfrwng Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Bydd talu am ofal cymdeithasol yn y dyfodol yn her i holl wledydd y DU, ac mae'n fater y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio ymdrin ag ef. Wrth i'r llywodraeth geisio llunio atebion posibl, a allai gynnwys treth neu ardoll gofal cymdeithasol, mae'n bwysig gwella dealltwriaeth pobl o ofal cymdeithasol. Heb yn gyntaf ddeall yr hyn y mae'r system yn ei ddarparu, fe fydd disgwyl i bobl gyfrannu tuag ati (pan na fyddant byth angen y gofal eu hunain, efallai) yn anodd.

## 2. Methodoleg

Cynhaliwyd yr arolwg hwn ar arolwg Omnibws Cymru Beaufort trwy ddefnyddio cyfweiliadau wyneb yn wyneb trwy gyfrwng CAPI (Cyfweiliadau Personol gyda Chymorth Cyfrifiaduron). Mae arolwg Omnibws Cymru yn cyfweild sampl cynrychiadol o 1,000 o oedolion ledled Cymru yn eu cartrefi eu hunain ym mhob arolwg ar wahân.

O safbwynt cynnal ymchwil farchnata ac ymchwil gymdeithasol, mae arolygon omnibws yn ddull sydd wedi hen ennill ei blwyf. Fel yr awgryma'r enw, maent yn galluogi grŵp o ddefnyddwyr i rannu'r un cyfrwng arolygu, gan esgor felly ar gostau is. Gall tanysgrifwyr i wasanaeth omnibws 'brynu' ar sail faint o gwestiynau y maent yn dymuno'u gofyn i'r sampl, a hefyd y math o gwestiynau. Mewn gwirionedd, felly, mae'r holl danysgrifwyr yn rhannu cost y cyfweiliadau a'r gorbenion eraill gyda'u cydgleientiaid.

Caiff yr arolwg ei seilio ar sampl cwota cynrychiadol, sy'n cynnwys fan leiaf 1,000 o oedolion 16+ oed sy'n byw yng Nghymru:

- Caiff y cyfweiliadau eu gwasgaru ar draws 68 o wahanol leoliadau trwy Gymru. Y brif uned samplu yw Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Hanes Is. Caiff manau

samplu eu dewis gyda thebygolrwydd sy'n gymesur â'r boblogaeth breswyl o oedolion ar ôl haenu yn y rhanbarth;

- Ym mhob lleoliad samplu, ceir mesurau rheoli cwtâu cydgysylltiedig mewn perthynas ag oedran a dosbarth cymdeithasol oddi mewn i ryw a statws gweithio. Caiff cwtâu eu pennu er mwyn adlewyrchu proffil demograffig trigolion Cymru yn ôl y Cyfrifiad diweddaraf a gynhaliwyd yn 2011, ac ni chaiff mwy nag un person ym mhob aelwyd ei gyfweld;
- Caiff yr holl gyfweiliadau eu cynnal wyneb yn wyneb yng nghartrefi'r ymatebwyr trwy ddefnyddio technoleg CAPI (Cyfweiliadau Personol gyda Chymorth Cyfrifiaduron). Defnyddir gweithwyr maes profiadol Beaufort gydag ôl-wiriadau post a ffôn yn unol ag ISO 20252 – y safon ansawdd ryngwladol ar gyfer gwasanaethau ymchwil farchnata;
- Yn ystod y cam dadansoddi, caiff y data ei bwysoli fesul grŵp oedran oddi mewn i rywedd o fewn grŵp Awdurdod Lleol er mwyn i'r sampl gynrychioli poblogaeth Cymru fel y'i gwelir yng nghanlyniadau Cyfrifiad 2011.

Roedd yr holiadur ar gyfer yr arolwg Talu am Ofal yn cynnwys cyfres o gwestiynau'n ymdrin â phrofiad personol o ofal cymdeithasol yng Nghymru, gwybodaeth am y system gofal cymdeithasol, pryderon a disgwyliadau ynghylch y math o ofal y gellid bod ei angen mewn henaint, gwybodaeth am y sefyllfa gyllido bresennol, ymwybyddiaeth o unrhyw newidiadau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried i gyllido gofal cymdeithasol a dewisiadau o ran cynhyrchu cyllid ychwanegol (gweler Atodiad 1). Hefyd, caiff cwestiynau demograffig eu cynnwys yn holl arolygon Omnibws Cymru. Roedd yr holiadur ar gael yn y Gymraeg neu'r Saesneg, yn ôl dewis y cyfranogwyr.

Ar gyfer arolwg Omnibws Cymru mis Mawrth, cafodd 1,001 o oedolion eu cyfweld rhwng 25 Chwefror a 10 Mawrth 2019. Mae Llywodraeth Cymru wedi cael tablau data llawn sydd wedi deillio o'r arolwg mewn adroddiad technegol ar wahân.


### 3. Casgliadau'r ymchwil

#### 3.1 Gwybodaeth am system gofal cymdeithasol Cymru

Mae llai na thri mewn deg o oedolion Cymru (27%) yn teimlo eu bod yn gwybod llawer iawn neu gryn dipyn am y modd y mae system gofal cymdeithasol Cymru yn gweithio. Mae pedwar mewn deg yn teimlo eu bod yn gwybod rhywfaint am y system, tra dywedodd tri mewn deg nad ydynt yn gwybod unrhyw beth amdani (gweler ffigur 1 drosodd).

## Ffigur 1: Gwybodaeth am system gofal cymdeithasol Cymru %

Mae llai na 3 mewn 10 o oedolion Cymru yn teimlo eu bod yn gwybod 'llawer iawn' neu 'gryn dipyn' am y modd y mae'r system gofal cymdeithasol yn gweithio



Sail: Pob ymatebwr (1,001)

Er bod gwybodaeth am y system yn eithaf isel, mae menywod yn gwybod mwy amdani na dynion – dywedodd 33% o fenywod eu bod yn gwybod 'llawer iawn' neu 'gryn dipyn' am y modd y mae gofal cymdeithasol yng Nghymru yn gweithio, mewn cymhariaeth â 21% o ddynion. Mae pobl hŷn yn gwybod mwy na phobl ifanc am y pwnc – mae 37% o bobl 55+ oed a holwyd yn teimlo eu bod yn gwybod 'llawer iawn' neu 'gryn dipyn' am ofal cymdeithasol, mewn cymhariaeth ag 19% o bobl 16-24 oed.

Y rhai a chanddynt rywfaint o brofiad personol o ofal cymdeithasol sy'n gwybod mwyaf am y system, gyda'r cyfrannau canlynol yn dweud eu bod yn gwybod cryn dipyn o leiaf:


- 68% o'r rhai sy'n gweithio yn y sector gofal cymdeithasol
- 63% o'r rhai sy'n gofalu am rywun sydd angen eu cymorth
- 55% o'r rhai sy'n cael gwasanaethau gofal cymdeithasol ar hyn o bryd
- 45% o'r rhai sy'n adnabod rhywun sy'n cael neu'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol.

### 3.2 Paratodau ar gyfer henaint a disgwyliadau mewn perthynas â chymorth gofal cymdeithasol y gall fod ei angen

Mae gan fwyafrif y boblogaeth (saith mewn deg) rai pryderon ynglŷn â'r cymorth gofal cymdeithasol y gallent fod ei angen yn y dyfodol. Wrth eu holi ymhellach ynghylch rhai pryderon penodol, dywedodd oddeutu hanner eu bod yn bryderus ynghylch cost gofal cymdeithasol (52%) ac ansawdd y gwasanaethau gofal cymdeithasol (49%), tra dywedodd pedwar mewn deg eu bod yn bryderus ynghylch argaeledd gofal cymdeithasol (gweler ffigur 2 isod).

Dim ond oddeutu un mewn pedwar (24%) o'r boblogaeth a ddywedodd nad oedd ganddynt unrhyw bryderon ynghylch y gofal cymdeithasol y gallent fod ei angen yn y dyfodol. Cynyddodd hyn i 40% ymhlith y rhai a gyfaddefodd nad oeddynt yn gwybod unrhyw beth am y modd y mae system gofal cymdeithasol Cymru yn gweithio.

### Ffigur 2: Pryderon ynghylch y gofal cymdeithasol y gallent fod ei angen yn y dyfodol %



Sail: Pob ymatebwr (1,001)


Mae menywod yn fwy tebygol na dynion o bryderu am gost, ansawdd ac argaeledd gofal cymdeithasol, ac mae pobl hŷn (55+ oed) yn fwy tebygol na grwpiau oedran eraill o bryderu am bob agwedd. Roedd y pryder ynghylch pob agwedd yn arbennig o uchel ymhlith y rhai a oedd wedi cael profiad personol uniongyrchol o'r system gofal cymdeithasol.

Er gwaethaf lefel gymharol uchel y pryderon a leisiwyd, dywedodd y rhan fwyaf o'r rhai a gafodd eu cyfweid (58%) nad ydynt yn gwneud unrhyw baratodau ar gyfer eu henaint. Pan fo pobl yn cymryd rhyw fath o gamau, y cam mwyaf cyffredin a grybwyllwyd yn ddigymell oedd cynilo / rhoi arian o'r neilltu (soniodd cyfanswm o 27% o'r rhai a gafodd eu cyfweid am hyn). Soniwyd am baratodau eraill – fel

gwneud newidiadau / addasiadau i'r cartref a symud i fath arall o gartref – gan gyfrannau llawer llai o bobl (6% yr un).

Mae pobl 55 oed a hŷn yn fwy tebygol na grwpiau oedran eraill o wneud rhai paratodau ar gyfer eu henaint, ond hyd yn oed ymhlith y grŵp oedran hwn dywedodd bron i hanner (48%) nad ydynt yn gwneud unrhyw beth (gweler ffigur 3 isod).

### Ffigur 3: Pa baratodau, os o gwbl, a gaiff eu gwneud ar gyfer henaint %



Sail: Pob ymatebwr (1,001)

Mae pobl gyfoethocach yn y grwpiau economaidd-gymdeithasol ABC1<sup>1</sup> yn fwy tebygol o wneud rhai paratodau ar gyfer eu henaint na phobl yn y grwpiau economaidd-gymdeithasol C2DE; ond er hyn, nid yw cyfran uchel o'r grŵp hwn yn cymryd unrhyw gamau (dywedodd 47% yn y grŵp cyntaf nad oeddynt yn gwneud unrhyw beth, mewn cymhariaeth â 68% yn y grŵp olaf).

<sup>1</sup> Caiff dosbarthiad economaidd-gymdeithasol ei bennu trwy ganfod teitl swydd a swydd unigolyn, a diffinnir graddau cymdeithasol fel a ganlyn:

**AB:** Swyddi proffesiynol, gweinyddol a rheoli canolradd ac uwch

**C1:** Swyddi proffesiynol, gweinyddol a rheoli is, clercol a goruchwyliol


**C2:** Gweithwyr llaw crefftus

**DE:** Gweithwyr llaw lled-grefftus a di-grefft, pensiynwyr gwladol, gweithwyr achlysurol neu weithwyr ar y radd isaf, y di-waith sy'n cael budd-daliadau'r wladwriaeth yn unig

Pan ddangoswyd rhestr iddynt a phan ofynnwyd iddynt sut fath o gymorth gofal cymdeithasol, yn eu tyb hwy, y gallent fod ei angen yn eu henaint er mwyn eu helpu i fyw'n annibynnol ac aros yn eu cartref eu hunain, dywedodd bron i bedwar mewn deg (39%) eu bod yn teimlo y gallent fod angen addasu eu cartref er mwyn ei wneud yn haws byw ynddo. Roedd oddeutu un mewn pedwar o'r farn y gallent fod angen technoleg i'w helpu i fyw'n annibynnol, tra oedd yr un gyfran o'r farn y gallent fod angen ffisiotherapi neu gymorth i'w helpu i aros yn weithgar ac egniol. Mae rhywfaint yn llai nag un mewn pump yn teimlo y gallent fod angen cymorth i ymolchi, gwisgo, bwyta neu fynd i'r tŷ bach.

Fodd bynnag, dywedodd mwy na hanner yr oedolion a gafodd eu cyfweld na fyddent angen unrhyw un o'r rhain (22%), neu dywedasant nad oeddynt yn gwybod.

#### Ffigur 4: Sut fath o gymorth gofal cymdeithasol y cred pobl y gallent fod ei angen yn eu henaint er mwyn eu helpu i fyw'n annibynnol ac aros yn eu cartref eu hunain %



Sail: Pob ymatebwr (1,001)


Unwaith eto, gwelir gwahaniaeth barn yn ôl rhywedd ac oedran – er enghraifft, mae menywod a phobl 55+ oed yn fwy tebygol na'r boblogaeth yn gyffredinol o deimlo y bydd angen iddynt o bosibl addasu eu cartref er mwyn eu helpu i fyw'n annibynnol ac aros yn eu cartref eu hunain (gyda 46% a 47% yn eu tro yn dweud hyn, mewn cymhariaeth â 39% yn gyffredinol). Hefyd, mae'r rhai a chanddynt anabledd neu salwch hirdymor yn llawer mwy tebygol o feddwl y byddant angen yr holl fathau o gymorth gofal cymdeithasol yn eu henaint o'u cymharu â'r cyfranogwyr yn gyffredinol.



Pan ofynnwyd iddynt pa mor debygol oedd hi y byddent angen cymorth gofal cymdeithasol yn eu henaint er mwyn eu galluogi i aros yn eu cartref, methodd cyfran uchel o'r sampl â rhoi ateb (37%). Mae cyfran debyg (oddeutu pedwar mewn deg – 39%) yn meddwl ei bod yn debygol y byddant angen cymorth o'r fath, tra mae un mewn pedwar (24%) yn teimlo ei bod yn annhebygol (gweler ffigur 5 isod).

Pan ofynnwyd iddynt pa mor debygol oedd hi y byddent angen gofal preswyl mewn cartref gofal neu gartref nyrsio yn eu henaint, method bron i hanner y bobl a gafodd eu cyfsweld â rhoi ateb. Fodd bynnag, mewn gwrthgyferbyniad â'r sefyllfa o ran cymorth gofal cymdeithasol yn eu cartref, o blith y rhai a gynigodd ateb mae mwy yn meddwl ei bod yn annhebygol y byddant angen gofal preswyl a llai yn meddwl ei bod yn debygol (gydag 18% yn dweud ei bod yn debygol a 35% yn dweud ei bod yn annhebygol).

**Ffigur 5: Y tebygolrwydd o fod angen cymorth gofal cymdeithasol yn eu henaint %**




Sail: Pob ymatebwr (1,001)

### 3.3 Gwybodaeth am y sefyllfa bresennol o ran cyllido gofal cymdeithasol yng Nghymru

Gan droi at yr hyn y mae pobl yn ei wybod am gyllido gofal cymdeithasol yng Nghymru, mae bron i wyth mewn deg o oedolion Cymru (78%) yn credu y gall fod angen i bobl gyfrannu at gostau cymorth gofal cymdeithasol yn eu cartrefi eu hunain, gyda dim ond 9% yn credu ei fod yn rhad ac am ddim i bawb, ni waeth be fo'u hincwm neu eu hasedau. Dywedodd 13% nad oeddynt yn gwybod.


Mae'r gyfran sy'n credu y gall fod angen i bobl gyfrannu at gostau gofal preswyl mewn cartref gofal neu gartref nyrsio bron yr un fath yn union (80%), gyda dim ond 6% yn credu ei fod yn rhad ac am ddim i bawb. Dywedodd 15% nad oeddynt yn gwybod (gweler ffigur 6 isod).



Mae 55% o'r rhai sy'n meddwl y gall fod angen i bobl gyfrannu at gostau cymorth gofal cymdeithasol yn eu cartref eu hunain yn credu y bydd gwerth unrhyw asedau sydd ganddynt a'r incwm a gânt yn cael eu hystyried wrth benderfynu pa un a fyddant yn gorfod talu, a faint y byddant yn gorfod ei dalu.

Mae cyfran uwch o bobl (64%) yn credu y bydd incwm ac asedau'n cael eu hystyried ar gyfer cyllido gofal cymdeithasol mewn cartref gofal neu gartref nyrsio (gweler ffigur 7 drosodd).

**Ffigur 7: Beth a gaiff ei ystyried wrth benderfynu pa un a fydd pobl yn talu, a faint y bydd pobl yn ei dalu %**



Pan ofynnwyd iddynt amcangyfrif y swm mwyaf y gallai fod angen i bobl ei gyfrannu bob wythnos er mwyn cael cymorth gofal cymdeithasol yn eu cartref eu hunain neu er mwyn cael gofal preswyl, methodd y rhai a oedd o'r farn y byddai cyfraniad ariannol yn ofynnol ag ateb (gyda 61% yn dweud nad oeddynt yn gwybod yr ateb ar gyfer cymorth gofal cymdeithasol yn y cartref a 55% yn dweud nad oeddynt yn gwybod yr ateb ar gyfer gofal preswyl).

Pan fu modd i'r ymatebwyr gynnig amcangyfrif, y swm wythnosol cyfartalog mwyaf y credir y bydd angen i bobl ei dalu er mwyn cael cymorth gofal cymdeithasol yn y cartref yw ychydig yn fwy na £340 (uwch o lawer na'r swm gwirioneddol), tra amcangyfrifir bod y swm wythnosol cyfartalog mwyaf y bydd angen i bobl ei dalu er mwyn cael gofal preswyl yn fwy na dwbl hyn (bron i £740).

Mae pobl a chanddynt swyddi rheoli, proffesiynol a gweinyddol a swyddi coler wen eraill (ABC1) yn disgwyl i'r swm wythnosol mwyaf y gall fod angen i bobl ei dalu er mwyn cael gofal cymdeithasol yn y ddwy senario fod yn uwch na phobl sy'n weithwyr llaw neu bobl nad ydynt yn gweithio (C2DE):


- Ar gyfer cymorth gofal cymdeithasol yn y cartref, mae ABC1 yn amcangyfrif £404 yr wythnos, mewn cymhariaeth ag amcangyfrif o £272 yr wythnos gan C2DE
- Ar gyfer gofal preswyl, mae ABC1 yn amcangyfrif £878 yr wythnos, mewn cymhariaeth â £575 yr wythnos gan C2DE

### 3.4 Agwedd tuag at wasanaethau gofal cymdeithasol a'u dulliau cyllido

Yn ystod y cyfweiliad darllenwyd yn uchel gyfres o ddatganiadau'n ymwneud ag agweddau tuag at wasanaethau gofal cymdeithasol a sut y cânt eu cyllido, a gofynnwyd i'r cyfranogwyr i ba raddau yr oeddynt yn cytuno neu'n anghytuno â phob un. Caiff y canlyniadau eu crynhoi isod ac yn ffigur 8 drosodd:

- Ceir cefnogaeth gref i gynyddu'r cyllid sydd ar gael i ofal cymdeithasol (gydag 82% o'r rhai a gafodd eu cyfweld naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r datganiad hwn). Mae'r gefnogaeth yn gryfach fyth ymhlith y rhai a chanddynt brofiad personol o'r sector gofal cymdeithasol, y rhai a chanddynt anabledd neu salwch hirdymor, menywod a phobl hŷn.
- Ceir cefnogaeth gref hefyd i wella ansawdd gofal cymdeithasol, gyda 76% yn cytuno bod angen gwella ansawdd y gofal cymdeithasol a roddir i bobl. Mae'r ffigur yn codi i 94% ymhlith y rhai sydd ar hyn o bryd yn gofalu am rywun, ac i 88% ymhlith y rhai sydd ar hyn o bryd yn gweithio yn y sector gofal cymdeithasol.
- Mae mwy na saith mewn deg o'r ymatebwyr (73%) yn credu y dylai pawb baratoi ar gyfer eu henaint pan maent yn iau ac mewn gwaith; er, fel y gwelir uchod, dim ond lleiafrif bach ohonynt sydd wrthi'n gwneud paratodau ar gyfer eu henaint eu hunain. Ni welir unrhyw wahaniaethau gwirioneddol yn ôl oedran yn hyn o beth, er bod y rhai sydd yn y grwpiau economaidd-gymdeithasol ABC1 cyfoethocach yn fwy tebygol o'i gefnogi na'r rhai sydd yn y grwpiau economaidd-gymdeithasol C2E (gyda 78% yn y grŵp cyntaf yn cytuno, mewn cymhariaeth â 68% yn y grŵp olaf).
- Mae bron i ddwy ran o dair o oedolion Cymru (65%) yn bryderus ynghylch gorfod talu am gymorth gofal cymdeithasol y gallent fod ei angen yn y dyfodol, gyda'r gyfran sy'n dweud hyn yn codi i 76% ymhlith y rhai a chanddynt anabledd neu salwch hirdymor.
- Mae hanner y rhai a gafodd eu cyfweld (50%) yn bryderus ynghylch sut y byddant yn llwyddo i fyw'n annibynnol wrth iddynt heneiddio. Mae'r ffigur yn codi i 64% ymhlith y rhai a chanddynt anabledd neu salwch hirdymor, i 59% ymhlith pobl dros 55 oed, ac i 55% ymhlith menywod.

## Ffigur 8: Agwedd y cyhoedd tuag at ofal cymdeithasol %




### 3.4 Ymwybyddiaeth o unrhyw newidiadau i bolisiau Llywodraeth Cymru o ran cyllido gofal cymdeithasol

Cyfran fechan yn unig o'r boblogaeth sy'n ymwybodol o unrhyw newidiadau a gaiff eu hystyried gan Lywodraeth Cymru i bolisiau cyllido gofal cymdeithasol (6%) (gweler ffigur 9 drosodd).

Mae ymwybyddiaeth o unrhyw newidiadau'n uwch ymhlith pobl hŷn nag ydyw ymhlith pobl ifanc (9% ymhlith pobl 55+ oed, mewn cymhariaeth â 2% ymhlith pobl 16-34 oed), ac mae ar ei uchaf ymhlith y rhai sydd ar hyn o bryd yn gweithio yn y sector gofal cymdeithasol (sef 17%).

### Ffigur 9: Ymwybyddiaeth o unrhyw newidiadau i bolisiau Llywodraeth Cymru o ran cyllido gofal cymdeithasol %



Y prif ddull sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth ymhlith y grŵp hwn yw newyddion / rhaglenni teledu (soniodd 50% o'r rhai a oedd yn ymwybodol o unrhyw newidiadau am y dull hwn), ac yna clywed ar lafar gwlad (soniodd 25% o'r grŵp am y dull hwn). Ar lefel is, soniwyd hefyd am bapurau newydd / cylchgronau (14%) a newyddion ar y radio (12%).

### 3.5 Dewisiadau o ran cynhyrchu cyllid ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol

Tua diwedd y cyfweiliad, esboniwyd i'r ymatebwyr fod yna alw cynyddol am ofal cymdeithasol gan fod pobl yn byw'n hŷn, ond bod y cyllid sydd ar gael i dalu am y gofal hwn yn gyfyngedig. Oherwydd hyn, esboniwyd bod Llywodraeth Cymru yn ystyried ffyrdd newydd o gynhyrchu cyllid ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol. Cawsant ddau ddewis yn ymwneud â chynhyrchu cyllid ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol:

1. Holl drethdalwyr Cymru yn talu treth ychwanegol i leihau faint y mae pobl yn ei gyfrannu at ofal cymdeithasol, neu
2. Holl drethdalwyr Cymru yn talu treth ychwanegol i wella ansawdd y gofal a gaiff pobl.


Roedd modd i'r ymatebwyr ddewis un o'r opsiynau hyn, neu ddewis 'dim un'. Yn yr achosion pan gafodd hoff ddewis ei fynegi, roedd yn well ganddynt ddefnyddio'r arian ar gyfer gwella ansawdd y gofal yn hytrach nag ar gyfer lleihau faint y mae pobl yn ei gyfrannu:

- Dewisodd mwy na phedwar mewn deg (44%) 'holl drethdalwyr Cymru yn talu treth ychwanegol i wella ansawdd y gofal a gaiff pobl'. Roedd menywod yn fwy tebygol na dynion o ddewis yr opsiwn hwn (49% o fenywod mewn cymhariaeth â 40% o ddynion).
- Dewisodd rhywfaint yn fwy na dau mewn deg (21%) 'holl drethdalwyr Cymru yn talu treth ychwanegol i leihau faint y mae pobl yn ei gyfrannu at ofal cymdeithasol'. Roedd dynion yn fwy tebygol na menywod o ddewis yr opsiwn hwn (26% o ddynion mewn cymhariaeth ag 16% o fenywod).
- Dywedodd dau mewn deg (22%) 'dim un', a dywedodd rhywfaint yn fwy nag un mewn deg (13%) nad oeddynt yn gwybod.

Yn olaf, gofynnwyd i'r cyfranogwyr pa wahaniaeth, os o gwbl, y byddai'n ei wneud i'w parodrwydd i dderbyn talu treth ychwanegol pe bai modd gwarantu y byddai'r holl arian a gesglid yn sgil y dreth hon yn cael ei 'glustnodi' neu'n cael ei wario ar ofal cymdeithasol yn unig. Dywedodd bron i chwech mewn deg (56%) y byddent yn fwy parod i dderbyn talu treth ychwanegol pe bai'r arian yn cael ei glustnodi, dywedodd 24% na fyddai'n gwneud unrhyw wahaniaeth i'w barn, a dywedodd 3% y byddai'n eu gwneud yn llai tebygol o wneud hynny (gweler ffigur 10 drosodd).

## Ffigur 10: Effaith 'clustnodi' ar ba mor dderbyniol fyddai treth ychwanegol %

Pe bai modd gwarantu bod yr holl arian a gesglid yn sgil treth ychwanegol yn cael ei 'glustnodi' neu'n cael ei wario ar ofal cymdeithasol yn unig, sut y byddai hynny'n dylanwadu ar eich barn?



Sail: Pob Ymatebwr (1,001)